



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

PWYLLGOR TRWYDDEDU

YN GWEITHREDU YN UNOL Â'I
SWYDDOGAETH O DAN
DDEDDF TRWYDDEDU 2003

Dolen gyswllt: Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol (Rhif ffôn (01443 424062)

Bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu, (yn gweithredu yn unol â'i swyddogaeth o dan Ddeddf Trwyddedu 2003) yn cael ei gynnal yn **(Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX)** ar **DYDD MAWRTH, 3YDD RHAGFYR, 2019** am **4.30 PM**.

MAE MODD I AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY GYSYLLTU AG UWCHADRAN TRWYDDEDU, TŶ ELÂI, DWYRAIN DINAS ISAF, TREWILIAM, CF40 1NY ERBYN **5PM AR Dydd Gwener, 29 Tachwedd 2019**, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN

I'w nodi: Pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

3. COFNODION

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu (yn gweithredu yn unol â'i swyddogaeth o dan ddeddf Trwyddedu 2003) a gynhaliwyd 10 Medi 2019.

5 - 8

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR, IECHYD Y CYHOEDD, AMDDIFFYN & CYMUNEDOL GWASANAETHAU

4. ADOLYGIAD O DDEDDF TRWYDDEDU 2003 AC O DDEDDF GAMBLO 2005

9 - 102

5. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:-

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR, IECHYD Y CYHOEDD, AMDDIFFYN & CYMUNEDOL GWASANAETHAU SY'N CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG

6. TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A GYHOEDDWDYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 26.08.19 - 27.11.19

- (i) Trwyddedau Personol
- (ii) Trwyddedau Safle

103 - 118

7. BUSNES BRYS

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu

Cylchrediad:-

Aelodau o'r Pwyllgor Trwyddedu:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu

(Y Cynghorydd A Fox a Y Cynghorydd D Williams)

Y Cynghorydd S Bradwick, Y Cynghorydd S Powderhill, Y Cynghorydd E Webster,

Y Cynghorydd T Williams, Y Cynghorydd W Lewis, Y Cynghorydd S Morgans,

Y Cynghorydd A Cox, Y Cynghorydd P Howe ac Y Cynghorydd L Jones

Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.

Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

Louise Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd

Paul Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol

Rhian Hope, Rheolwr Gwasanaeth Trwyddedu a Diogelu Iechyd

Martyn Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol